



**BBN Conwy  
Pecyn Cymorth  
2018**

**I helpu'r unigolion trwyddedig gyda'r asesiad Braf Bob Nos**

## Pecyn Cymorth Braf Bob Nos

Mae'r pecyn cymorth hwn yn rhoi rhestr wirio i chi o'r pethau a all fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi geisio diwallu'r 29 o feini prawf hanfodol ar gyfer y Wobr Efydd. Rydym wedi darparu nifer o becynnau fel y ffurflenni Adolygu Diogelwch y gallwch eu copïo neu eu defnyddio yn eich busnes o ddydd i ddydd, Adolygiad Gwrthod a hefyd gwybodaeth gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Rydym hefyd wedi cynnwys rhai pecynnau cymorth ychwanegol i helpu gyda pethau fel cofnodi cyffuriau ac arfau a atafaelwyd a chadw cofnodion goruchwylwyr drws. Mae logiau, polisïau samplau (i'w haddasu at eich dibenion eich hun) a ffurflenni adroddiad sydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn Cymorth hwn, **wedi'u hamlygu mewn coch** dan bob un o'r meini prawf.

**Awgrymiadau yn unig yw'r rhain – efallai bod eich eiddo eisoes yn cadw cofnodion mewn fformat arall, sydd hefyd yn dderbyniol. Efallai nad ydych yn teimlo eich bod angen sefydlu gormod o bolisïau ysgrifenedig, yn dibynnu ar y maint a'r math o fusnes, fydd hefyd yn dderbyniol cyn belled y gallwch hefyd ddarparu tystiolaeth sy'n diwallu'r meini prawf.**

## Cyngor

I ddiwallu gofynion y Wobr, rydym yn awgrymu eich bod hefyd yn ystyried llunio **Llyfr Polisïau, Ffolder, neu set o ffolderi** sy'n cynnwys y canlynol:

### Adran A: Atal Trosedd ac Anhrefn

#### Diogelwch

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Cofnod neu Log Adolygu Diogelwch
- Os ydych yn cyflogi staff drws, cofnod o'u manylion a rhif cofrestru SIA
- Adroddiad neu gofnod o ddigwyddiad/damwain/lladrad
- Gwybodaeth ysgrifenedig (polisi) ar chwilio cwsmeriaid

#### Diodydd/Meddwdod

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Gwybodaeth ysgrifenedig (polisi) sy'n arddangos agwedd gyfrifol tuag at werthu alcohol – h.y. peidio gwerthu i bobl sy'n feddw
- Gwybodaeth/arwyddion ysgrifenedig ar argaeledd diodydd meddal e.e. diodydd am ddim i yrwyr dynodedig
- Cofrestr neu log o bobl a wrthodwyd diod iddynt
- Cofnod o hyfforddiant staff sy'n dangos bod eich staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- Poster yn atgoffa cwsmeriaid i ymddwyn yn gyfrifol

#### Cyffuriau

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Polisi ysgrifenedig yn nodi bod gennych chi bolisi dim goddefgarwch i gyffuriau ac yn amlinellu beth y bydd y lleoliad yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl yn dod â chyffuriau i'r eiddo na'n eu cymryd yno. Dylai hefyd nodi beth y byddwch yn ei wneud os yw unrhyw un yn cael eu dal gyda chyffuriau yn yr eiddo, a sut y byddwch yn cael gwared ar y cyffuriau. Gweler yr adran **Gwybodaeth Ymwybyddiaeth Cyffuriau**.
- Logiau Gwiriadau Toiled
- Cofnod Gwaredu/Casglu Cyffuriau/Arfau
- Cofnod o hyfforddiant staff sy'n dangos bod eich staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- Poster dim goddefgarwch i gyffuriau
- Polisi clir yn ymwneud â chwilio eiddo

## Strategaeth Atal Lladrad

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Tystiolaeth ysgrifenedig o gynlluniau dim lladrata clir ar gyfer cwsmeriaid a staff
- Rhyw fath o system gofnodi eiddo coll e.e. Cofnod Eiddo Coll

## Anhrefn

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Polisi ysgrifenedig ar atal ac ymdrin ag anhrefn a rheoli gwrthdaro
- Rhyw fath o gofnod yn dangos sut y byddwch yn cofnodi digwyddiadau o'r fath
- Poster i atgoffa cwsmeriaid o'r angen i ymddwyn yn gyfrifol

## Adran B: Diogelwch y cyhoedd

### Problemau'r Eiddo

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Cynllun/cofnod ysgrifenedig sy'n dangos sut y mae capasiti yn cael ei reoli'n effeithiol i osgoi gorlenwi
- System gofnodi damweiniau

### Diogelwch y Cyhoedd

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Cynllun gwagio'r adeilad os bydd argyfwng (tân, terfysgaeth, colli pŵer ayyb)

### Rheoli Digwyddiadau

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Dogfennau yn dangos bod yr heddlu/asiantaethau eraill yn cael gwybod cyn cynnal digwyddiad arbennig

## Gwydr

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Cynllun casglu gwydrau effeithiol
- Cynlluniau ar gyfer ymdrin â diodydd wedi'u tywallt a gwydrau wedi'u torri

## Tân

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Aseiad risg diogelwch tân ysgrifenedig sydd wedi'i gwblhau neu ei adolygu yn y deuddeg mis diwethaf.
- Cofnod o hyfforddiant staff sy'n dangos bod eich staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- Rhestr wirio dyddiol cyn agor
- Dogfennau sy'n dangos bod yr holl offer tân yn cael ei archwilio/ei wasanaethu yn flynyddol

## Adran C: Atal Niwsans Cyhoeddus

### Sŵn ac Aflonyddwch

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Polisi sŵn effeithiol sy'n berthnasol i'ch ardal gyfagos
- Tystiolaeth o bolisi gwasgaru effeithiol sy'n berthnasol i'ch ardal gyfagos
- Deunydd yn atgoffa pobl i adael yn dawel e.e. y poster shhhhhh

## Adran D: Diogelu Plant rhag Niwed

### Diogelu Plant rhag Niwed

Mae'r dogfennau/pecynnau sydd eu hangen yn cynnwys:

- Tystiolaeth o bolisi tystiolaeth oedran cadarn a thystiolaeth bod gweithdrefnau yn cael eu dilyn bob amser
- Posteri/rhybuddion i gwsmeriaid yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y polisi caeth hwn
- Polisi o wirio tystiolaeth o oedran unigolion (pasbort, trwydded yrru â llun neu gardiau tystiolaeth oedran achrededig PASS) ar gyfer rhai sy'n ymddangos eu bod dan 21 oed
- Ffuriau derbynol o gardiau adnabod a chardiau adnabod ffug
- Cyfrifiannell dilysu oedran
- Cofrestr neu log o bobl a wrthodwyd diod iddynt
- Cofnod o hyfforddiant staff sy'n dangos bod eich staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- Ei gwneud yn ofynnol i staff ddarllen a llofnodi rhybudd ynglŷn â gwerthu i unigolion dan oed cyn dechrau bob shift

### Hyfforddiant Staff

Ydych chi angen llunio **Llyfryn neu Ffolder/Ffolderi** sy'n ymdrin â **hyfforddiant staff**? Mae'n rhaid i chi fedru arddangos beth yw cynnwys yr hyfforddiant. Ystyriwch gynnwys y canlynol:

- Enw aelod staff
- Dyddiad yr hyfforddiant
- Math o hyfforddiant
- A yw archwiliad wedi'i osod
- Dyddiad yr archwiliad
- A yw'r aelod staff wedi pasio'r archwiliad
- Mae'r aelod staff yn llofnodi'r dogfennau i ddangos eu dealltwriaeth o'r hyfforddiant

**Rhaid** cynnal hyfforddiant\* yn y meysydd:

- Diodydd a meddwdod
- Cyffuriau
- Atal trosedd (beth all staff ei wneud i atal lladrad yn y lleoliad)
- Ymdrin ag anhrefn.
- Tân – gweithdrefnau ymadael, offer diogelwch
- Yfed dan oed – beth yw'r gyfraith berthnasol, pwy sy'n gyfrifol, pa gamau gweithredu y dylid eu cymryd.

\*dylai unrhyw hyfforddiant a gynhaliwyd fod yn gymesur i'ch busnes. Er enghraifft, bydd angen i leoliad mawr sy'n cyflogi deg neu bymtheg o staff sicrhau bod eu staff wedi cael hyfforddiant dwys yn y meysydd uchod, yn allanol neu trwy'r DPS neu ddeilydd trwydded personol. Byddai hyn yn ormodol i dafarn fechan gyda dim ond un neu ddau o staff bar, lle gellir cynnal hyfforddiant gan y DPS neu'r deilydd trwydded personol a gallai staff lofnodi'r llawlyfr trwydded personol neu ddogfennau eraill i ddangos eu bod wedi deall.

# Adran A: Atal Trosedd ac Anhrefn

## Diogelwch

## Cofnod Adolygu Diogelwch

Lleoliad:	Dyddiad	Amser
Staff yn bresennol: ----- ----- ----- ----- ----- -----		

<b>Cofnod:</b> ----- ----- ----- ----- ----- -----
--

**Crynodeb** cofnod adolygu diogelwch: Nodwch unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a drafodwyd, natur y digwyddiadau, pobl oedd yn rhan o'r digwyddiadau, difrod i eiddo a math o ddifrod, manylion unrhyw gyffuriau, achosion y digwyddiad, camau a gymerwyd (yn syth ac yn y tymor hir) i ddatrys problem neu fynd i'r afael ag achos y broblem, trwsïadau a gynhaliwyd, ayyb.

<b>Rhowch grynodeb o'r cyfarfod isod:</b>

<b>Llofnod y Rheolwr:</b>
---------------------------

# Cofnod Adolygu Diogelwch

Lleoliad.....

Dyddiad	Staff yn bresennol	Materion a drafodwyd	Y camau gofynnol	I'w gwblhau gan

Llofnod y Goruchwylydd Drws:
Llofnod y Rheolwr ar Ddyletswydd:
Dyddiad:

**STAFF DRWS EIDDO TRWYDDEDIG  
FFURFLEN WIRIO TRWYDDED AWDURDOD Y DIWYDIANT DIOGELWCH**

Y diffiniad **swyddog diogelwch** yw rhywun sy'n gwarchod lleoliadau, eiddo, un neu fwy o unigolion (yn erbyn ymosodiad neu anaf oherwydd ymddygiad anghyfreithlon eraill.) neu yn sgrinio addasrwydd pobl sy'n mynd i mewn i eiddo. Diffiniad **goruchwilydd drws** yw person sy'n cael ei gyflogi i wrthod neu anfon rhywun allan o eiddo sydd wedi'i drwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Enw a chyfeiriad yr eiddo	Enw'r person sy'n cynnal y gwiriad

Enw llawn y staff drws a'r dyletswyddau sy'n cael eu cynnal (gweler y diffiniad uchod)	Dyddiad geni a chyfeiriad	Rhif trwydded 16 digid SIA a Dyddiad Terfyn	Os nad oes trwydded SIA <b>Peidiwch â'u cyflogi</b>

Enw'r DPS / Rheolwr ar ddyletswydd	Llofnod y DPS/Rheolwr Rhif trwydded SIA:	Cadarnhewch fanylion yr asiantaeth sy'n cyflenwi staff drws os nad ydynt wedi'u cyflogi yn uniongyrchol gan yr eiddo

**Unrhyw wybodaeth bellach:**

---



---



---



---



---

## Rhoi gwybod am Ddigwyddiad

Rhif Ffurflen Ddigwyddiadau.....

Enw'r Lleoliad	Dyddiad	Amser
Damwain?	Digwyddiad?	Lladrad?
A alwyd yr Heddlu?	Do	Naddo
Os do:		
Enw'r swyddog:	Rhif coler:	Rhif trosedd:

### Adroddiad:

Os bu **digwyddiad**: Nodwch natur y digwyddiadau, nifer y bobl oedd yn rhan o'r digwyddiadau, difrod i eiddo a math o ddifrod, ymglymiad yr heddlu, os o gwbl, ac enw a rhif coler y swyddog sy'n mynychu. Rhif trosedd os yw ar gael. Manylion unrhyw gyffuriau.

Os bu **Damwain**: Nodwch natur y ddamwain, nifer y bobl oedd yn rhan o'r ddamwain, enw a chyfeiriadau'r bobl, nifer y bobl a anafwyd, triniaeth a gafwyd neu a alwyd ambiwlans, enwau'r staff/staff drws a fynychodd.

Os bu **Lladrad**: Nodwch ddisgrifiad o'r hyn sydd ar goll, manylion y cwsmer a rhifau cyswllt, manylion unrhyw berson a arestiwyd, a alwyd yr heddlu, ac os felly, enw a rhif coler y swyddog a fynychodd, a'r rhif trosedd os yw ar gael, a gafodd yr eitem ei ganfod ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd i'r cwsmer.

### Rhowch adroddiad llawn a manwl isod:


Llofnod yr Aelod Staff:	Dyddiad:
Llofnod y Rheolwr:	Dyddiad:



## Cofnod Digwyddiad

Lleoliad.....

Dyddiad/Amser	Disgrifiad Byr	Damwain/Digwyddiad/Lladrad Nodwch	Rhif Ffurflen Ddigwyddiadau (os yw'n berthnasol)	Wedi Cysylltu â'r Heddlu? Do/Naddo

Llofnod y Goruchwylydd Drws:	Dyddiad:
Llofnod y Rheolwr:	Dyddiad:

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

Enw deilydd trwydded yr eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â chwilio cwsmeriaid yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Mae'r sefydliad yn cadw'r hawl i chwilio unrhyw gwsmeriaid sy'n dod i'r eiddo.**
4. **Mae'r person â chyfrifoldeb yn cadw'r hawl i chwilio cwsmeriaid os yw ef/hi yn amau bod cyffuriau neu arf(au) yn cael eu cludo i'r eiddo.**
5. **Bydd y person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod rhybudd yn cael ei arddangos i atgoffa cwsmeriaid eu bod yn cadw'r hawl i chwilio**
6. **Gellir chwilio fel amod mynediad; bydd merched yn chwilio merched a dynion yn chwilio dynion.**
7. **Bydd chwiliadau yn cael eu cynnal mewn modd nad yw'n gwahaniaethu e.e. Bydd pob degfed person yn cael eu chwilio; bydd pawb yn cael eu chwilio ayyb.**
8. **Bydd dau o staff yn bresennol wrth chwilio i amddiffyn staff rhag unrhyw honiadau posibl.**
9. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnodwyd \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

# Adran A: Atal Trosedd ac Anhrefn

## Diodydd/Meddwdod

### Polisi Diodydd/Meddwdod

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Ni ddylai staff sy'n gwerthu alcohol ar yr eiddo werthu alcohol i unrhyw unigolion (sy'n ymddangos iddyn nhw a/neu'r person â chyfrifoldeb) wedi meddwi. Dylai staff bob amser ddangos agwedd gyfrifol tuag at werthu alcohol.**
4. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnodwyd \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

## Cofrestr Gwrthod

Lleoliad.....

Amser/dyddiad	Disgrifiad o'r unigolyn	A ddangoswyd tystiolaeth o oedran?	Sylwadau	Blaenlythrennau Staff

Llofnod y Rheolwr .....

## Cofnod Hyfforddi Staff

<b>Enw'r Gweithiwr</b>	<b>Swydd</b>
------------------------	--------------

<b>Dyddiad</b>	<b>Hyfforddiant a gafwyd</b>	<b>Llofnod yr Aelod Staff i ddangos eu bod yn deall</b>	<b>Llofnod y Rheolwr</b>

Enghraifft o rybudd y gellir ei arddangos mewn lleoliad:

### **RHYBUDD PWYSIG**

Ni chaniateir ymddygiad meddw, treisgar na gwrthgymdeithasol yn yr eiddo hwn.  
Bydd unrhyw un sy'n ymddwyn yn y modd hwn yn gorfod gadael yr eiddo ac fe gysylltir â'r heddlu.

# Adran A: Atal Trosedd ac Anhrefn Cyffuriau

## Polisi Cyffuriau

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw deilydd trwydded yr eiddo:

---

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â gwerthu cyffuriau anghyfreithlon yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Mae'r eiddo yn gweithredu polisi dim goddefgarwch mewn perthynas â chyffuriau a bydd posteri yn cael eu harddangos ynglŷn â hyn. Mae'n rhaid i staff fod yn wylidwrs i sicrhau nad yw pobl yn dod â chyffuriau i'r eiddo neu'n eu cymryd yn yr eiddo.**
4. **Mae'n rhaid i staff sy'n gwerthu alcohol ar yr eiddo ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolion sy'n ymddangos iddyn nhw a/neu i'r person â chyfrifoldeb eu bod dan ddylanwad cyffuriau, neu ymddangos eu bod yn gwerthu cyffuriau, adael yr eiddo ar unwaith. Os yw'n ddiogel i wneud hynny, dylid cymryd y cyffuriau oddi ar y troseddwr.**
5. **Os bydd unrhyw un yn cael eu dal gyda chyffuriau ar yr eiddo, dylai'r aelod staff roi gwybod i'r heddlu yn syth a gallu rhoi disgrifiad o'r troseddwr neu eu henw os yw'n hysbys.**
6. **Os yw cyffuriau wedi'u cymryd gan y troseddwr, dylid eu rhoi mewn bag plastig a'i farcio gyda'r amser y cawsant eu canfod neu eu cymryd; enw'r person a ddaeth o hyd iddynt a lle y canfuwyd y cyffuriau. Dylid selio'r bag yn syth a'i roi yn y sêff i'r heddlu ei gasglu a'i waredu. Ni ddylid rhoi cyffuriau i lawr y toiled na'u taflu.**
7. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnodwyd \_\_\_\_\_  
Swydd \_\_\_\_\_

## Ymwybyddiaeth Cyffuriau

Mae eiddo trwyddedig yn denu defnyddwyr cyffuriau anghyfreithlon a gwerthwyr cyffuriau, a byddwch yn canfod sylweddau anghyfreithlon pan rydych yn gweithio. Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r gyfraith a gweithio oddi mewn i'r gyfraith.

Y prif droseddau yn ymwneud â chyffuriau y byddwch yn eu canfod yn eich lleoliadau yw:

Gwerthu Cyffuriau

Defnyddio Cyffuriau

Sbeicio (pan fydd rhywun yn rhoi cyffur yn niod rhywun arall, fel arfer er mwyn cyflawni trosedd rywiol)

### Dim Goddefgarwch

Yr agwedd orau at werthu cyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yw dim goddefgarwch

Er mwyn cyflawni hyn, dylech geisio:

Atal cyffuriau rhag dod i'ch lleoliad (gwrthod mynediad i werthwyr cyffuriau hysbys neu rai dan amheuaeth)

Creu enw da i'ch lleoliad trwy brofi na fydd cyffuriau yn cael eu dioddef.

Yn y gorffennol, mae goruchwylwyr drysau wedi smalio nad ydynt yn ymwybodol bod cyffuriau mewn eiddo trwyddedig. Mae hyn yn anghyfreithlon.

### Petheuach Cyffuriau - gwyliau

Mae siop ar-lein sy'n gwerthu bocsys cuddio cyffuriau ar hyn o bryd (bocsys ar gyfer cadw cyffuriau wedi'u rheoli) sy'n edrych fel eitemau bob dydd er mwyn twyllo'r staff diogelwch mewn gwyliau. Os ydych chi'n cynnal chwiliadau, byddai'n ddefnyddiol i chi wybod am yr eitemau hyn. Mae'r bocsys yn edrych fel beiros, batris (o'r enw Duraball, ac wedi ymddangos yn FHM yn ddiweddar fel eitem hanfodol ar gyfer gwyliau) a thanwyr.

Dyma sut y mae'r gwerthwr yn hysbysebu'r 'batri cuddio':

'Mae'r batri cuddio yn syniad gwyh ar gyfer cuddio pethau. Agorwch y gwaelod a rhoi beth bynnag rydych eisiau y tu mewn iddo. Yna, gallwch roi'r batri mewn dyfais electronig a bydd wedi'i guddio yn berffaith.'

Felly, bydd yr eitemau hyn wedi'u cuddio y tu mewn i eitemau electronig ac efallai y byddai'n ddoeth i chi edrych ar y batris mewn dyfeisiau o'r fath os ydych yn amau bod rhywun yn cario cyffuriau. Mae'r tanwyr (enw'r un du yw 'Slic') a'r beiros yn eitemau sy'n gweithio yn ogystal â chuddio pethau, ac maent wedi'u cynllunio i fod yn anodd i'r staff diogelwch eu hadnabod.

### Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971

Y prif gyfraith sy'n ymwneud â meddiant, cyflenwi a chludo cyffuriau anghyfreithlon yw'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae'r Ddeddf yn rhestru cyffuriau 'wedi'u rheoli' ac yn rhoi cosbau ar gyfer eu cyflenwi a'u meddiannu. Mae cyffuriau wedi'u rheoli wedi'u dosbarthu i ddsbarthiadau A, B ac C – gwelir cyffuriau dosbarth A fel y rhai mwyaf niweidiol a daw'r cosbau mwyaf gyda'r rhain.



## Cosbau:

### Meddiant anghyfreithlon

Dosbarth A – hyd at saith mlynedd

Dosbarth B – hyd at bum mlynedd

Dosbarth C – hyd at bum mlynedd

### Cyflenwi

Dosbarth A – hyd at oes mewn carchar

Dosbarth B – hyd at bedair mlynedd ar ddeg

Dosbarth C – hyd at bum mlynedd

Mae anwybyddu gwerthiant cyffuriau mewn eiddo trwyddedig hefyd yn drosedd dan y Ddeddf Trwyddedu 2013 felly mae'n rhaid i chi weithio yn unol â'r gyfraith ac atal hyn rhag digwydd yn yr eiddo. Os yw'r heddlu yn amau bod cyffuriau Dosbarth A yn cael eu gwerthu yn eich eiddo, mae ganddynt yr hawl i gau'r eiddo am hyd at 24 awr. Yn y diwedd gellir diddymu'r drwydded (ei dynnu oddi ar ddeilydd y drwydded).

### **Cyffuriau yn ôl Dosbarth**

#### Dosbarth A

Opiwm

Cocên

Morffîn

Crac

Ecstasi

LSD

Amffetamin os yw'n cael ei baratoi  
mewn chwistrelliad

Madarch hud

#### Dosbarth B

Canabis

Amffetaminau

Mephedrone

#### Dosbarth C

Temezepam a Flunitrazepam (yr  
enw masach yw Rohypnol) yn  
anghyfreithlon heb bresgripsiwn

GHB

Ketamine

### **Enwau ar y Stryd**

Heroin: H, skag, brown, horse, gear, smack  
Cocên: coke, charlie, C, toot, snow, white  
Crac: rocks, wash, stones, pebbles, base, freebase

Ecstasi: e, pills, doves, hug-drug, disco biscuits, xtc, M&Ms  
LSD: acid, blotter, dots, flash, micro dot, tab, strawberries  
Amphetamines: speed, uppers, whiz, sulph, dexies

Canabis: blow, weed, draw, grass, hash, wacky backy, puff  
Mephedrone: MCat, Miaow, Meow meow, MC, bubbles  
Ketamine: K, special K, super K, vitamin K

### **Pwerau'r Heddlu**

### **Adnabod Gwerthu Cyffuriau a Chamddefnyddio Cyffuriau yn eich Lleoliad**

Mae sawl arwydd sy'n dweud wrthym bod cyffuriau yn cael eu gwerthu a'u camddefnyddio yn ein lleoliadau felly mae angen i chi fod yn ymwybodol a monitro ymddygiad cwsmeriaid. Wrth gyfarfod a chyfarfarch eich cwsmeriaid wrth y drws, gallwch wirio am arwyddion camddefnyddio cyffuriau:

## Ymddangosiad cwsmeriaid

Cannwyll Llygad mawr/bach

Edrychiad meddw

Marciau gwyn/powdwr ar y ffroenau

Ffroeni yn ormodol/trwyn yn rhedeg

Llygaid coch/dyfriog

Symptomau anwyd

Breichiau a choesau yn symud

Gormod o ynni

## Ymddygiad Cwsmeriaid

Chwerthin

Siarad yn ddi-baid

Wyneb syn

Dawnsio yn ddi-baid

Dychryn yn hawdd/dagreuol

Yfed diodydd meddal/dŵr yn ddi-baid

## Sbwriel a Phetheuach Cyffuriau

Chwistrellau/Nodwyddau

Ffoil/llwyau wedi llosgi

Bagiau bychan y gellir eu selio

Poteli/Ffiolau bychan

Llafnau rasal/cardiau plastig

Hidlwr cardbord/pacedi Rizzla wedi'u rhwygo

## Adnabod Gwerthwyr Cyffuriau

### Cadwch lygad am:

Berson/pobl sy'n boblogaidd iawn yn y lleoliad

Ymweliadau cyson â'r toiled, weithiau gyda phobl eraill

Cwsmeriaid sy'n aros am amser byr a ddim yn yfed na'n talu sylw i'r adloniant na'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliad

Ymddygiad cyfrinachol/cyfrwys/slei

Gwybodaeth gan gwsmeriaid eraill neu staff – yn aml gall y staff glanhau roi gwybod i chi am amheuaeth o ddefnydd cyffuriau, yn y toiledau er enghraifft

Arian yn cael ei basio rhwng cwsmeriaid

## Cydymffurfio â'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 i Osgoi Erlyniad

Yr unig bobl sy'n cael bod ym meddiant cyffuriau wedi'u rheoli wrth wneud eu dyletswyddau yw'r heddlu. Felly mae'n rhaid i chi bob amser weithredu o fewn y gyfraith a pholisi'r lleoliad ac ni ddylech fyth:

Roi cyffuriau yn eich poced, hyd yn oed am gyfnod byr gan y gallech wynebu cael eich erlyn – os ydych yn brysur, gofynnwch i gydweithiwr gymryd drosodd gennych fel y gallwch roi gwybod a chofnodi'r cyffuriau yn syth

Fynd â chyffuriau wedi'u rheoli allan o'r eiddo – rhowch wybod a chofnodwch yr hyn rydych wedi'i ganfod yn syth

Anwybyddu unrhyw gymryd cyffuriau/gwerthu – mae gennych ddyletswydd i atal gwerthu a chymryd cyffuriau yn eich lleoliad

Ganiatáu i bobl rydych yn amau sy'n werthwyr cyffuriau ddod i mewn – dylech wrthod gadael iddynt ddod i'ch lleoliad

Weithredu ar eich pen eich hun mewn sefyllfa sy'n cynnwys cyffuriau – mae angen i chi eich amddiffyn eich hun yn erbyn honiadau a/neu erlyniad posibl

## **Os byddwch yn dod o hyd i Gyffuriau yn eich Lleoliad**

Os byddwch yn dod o hyd i gyffuriau yn eich lleoliad, dylech:

Alw rheolwr yn syth a dangos iddynt beth rydych wedi dod o hyd iddo (peidiwch â symud unrhyw beth nes y bydd ef/hi yn cyrraedd)

Ewch gyda'r rheolwr i swyddfa ddiogel

Cyfrwch y cyffuriau (gan ddefnyddio menig latecs) a'u rhoi mewn bag wedi'i selio (neu amlen wedi'i selio os nad oes bag ar gael)

Labelwch y cynnwys a rhoi'r dyddiad

Rhowch nhw mewn cwpwrdd diogel neu sêff

Ffoniwch yr heddlu a rhoi'r cyffuriau iddynt gan sicrhau eich bod yn cael derbynneb

Rhoi gwybod a chofnodi

## **Canfod cyffuriau ar gwsmer**

Mae angen sicrhau bod dau o staff yn bresennol pan rydych yn chwilio rhywun, er mwyn diogelu eich hun yn erbyn honiadau posibl

Chwiliwch mewn ardal ddiogel os rhoddir caniatâd gan y cwsmer (os na roddir caniatâd, gofynnwch i'r cwsmer adael a rhowch fanylion/tystiolaeth/darluniau TCC i'r heddlu). Cofiwch, nid oes gennych hawl gyfreithiol i chwilio unrhyw un, ac mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd cyn eu chwilio.

Dylid cadw unrhyw eitemau a ganfuwyd mewn man lle gall y cwsmer a'r staff drws ei weld nes y bydd yn cael ei storio (dilynwch y drefn flaenorol ar ganfod cyffuriau yn eich lleoliad)

Efallai y bydd rhaid i chi arestio'r cwsmer (ffoniwch yr heddlu a rhoi'r cwsmer a'r dystiolaeth i'r heddlu)

Rhowch wybod a chofnodwch y digwyddiad ar y gofrestr ddyletswydd

## **Cwsmeriaid sy'n Dioddef Effeithiau Cyffuriau**

Ceisiwch gysuro'r cwsmer trwy siarad gyda nhw yn bwylllog

Ewch â'r cwsmer i ardal oerach/tawelach

Gofynnwch am gydweithrediad ei ffrindiau (ceisio canfod beth y maent wedi'i gymryd)

Rhowch wybod i'r rheolwr a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd – gallant ffonio am gymorth meddygol a/neu roi gwybod i'r heddlu

Peidiwch â chynnig paned o goffi – mae coffi yn symbylydd

Peidiwch byth â gofyn i rywun adael os ydynt yn dioddef o effeithiau cyffuriau neu alcohol (cofiwch eich dyletswydd gofal dan y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)

Os yw rhywun wedi rhoi rhywbeth yn niod y cwsmer, byddant angen sylw meddygol.

Os yw'r cyffuriau Dosbarth C GLB neu GHB yn gysylltiedig ag ymosodiad rhywiol drwy gymorth cyffuriau, mae hyn yn drosedd dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 a gellir rhoi cosb o hyd at ddeng mlynedd yn y carchar.

## **lechyd a diogelwch wrth ymdrin â chyffuriau ac ysbwriel cyffuriau**

Mae angen i chi amddiffyn eich hun rhag y risg o haint wrth ymdrin â chyffuriau ac ysbwriel cyffuriau. Mae risg o HIV a hepatitis wrth ymdrin â chwistrellau, nodwyddau ac unrhyw beth sydd wedi'i heintio â gwaed neu hylifau'r corff.

Taflwch unrhyw wastraff wedi'i heintio (unrhyw beth wedi'i heintio a hylifau'r corff) trwy eu fflysio i lawr y toiled.

Gallwch roi chwistrellau mewn potel wag nes y gallwch eu gwaredu yn ddiogel mewn bocs nodwyddau (byth mewn gwastraff domestig gan y gallant anafu rhywun arall) neu eu rhoi i'r heddlu os ydynt yn dystiolaeth.

Efallai y bydd angen i chi wisgo menig gwrth-nodwyddau neu latecs i'ch amddiffyn eich hun wrth ymdrin â'r risgiau (fel HIV neu hepatitis) sy'n gysylltiedig â chyffuriau, ysbwriel cyffuriau a gwastraff wedi'i heintio.

Efallai yr hoffech gael pigiad hepatitis gan eich meddyg teulu i'ch amddiffyn ymhellach. Os byddwch yn dewis gwneud hyn, bydd angen i chi barhau i ddiogelu eich hun rhag y risgiau – peidiwch â meddwl y byddwch yn ddiogel

# Cofnod Gwiriadau Toiled

Lleoliad.....

Dyddiad .....

Toiled	Amser	Cyflwr - Gwael	Cyflwr - cymharol	Cyflwr - Da	Problem? (os nad oes, rhowch Amh)	Camau? (os mai gwiriad yn unig, ticiwch)	Gweithredwyd gan: (Blaenlythrennau)
Merched							
Dynion							
Merched							
Dynion							
Merched							
Dynion							
Merched							

**Cyffuriau/Arfau -  
Cofnod Symud/Casglu**

Lleoliad.....

<b>Amser/dyddiad</b>	<b>Eitemau</b>	<b>Enw'r Swyddog Heddlu wnaeth eu symud</b>	<b>Rhif coler</b>	<b>Llofnod</b>

Llofnod y Rheolwr .....

## Cofnod Hyfforddi Staff

<b>Enw'r Gweithiwr</b>	<b>Swydd</b>
------------------------	--------------

<b>Dyddiad</b>	<b>Hyfforddiant a gafwyd</b>	<b>Llofnod yr Aelod Staff i ddangos eu bod yn deall</b>	<b>Llofnod y Rheolwr</b>

## Polisi Chwilio Eiddo

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â chwilio cwsmeriaid yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Bydd yr eiddo yn cael ei wirio yn ddyddiol gan ddefnyddio'r weithdrefn agor a chau sefydledig**
4. **Bydd yr holl ardaloedd bar, toiledau ac unrhyw ardaloedd allanol yn cael eu gwirio i sicrhau bod popeth fel y dylai fod, neu nad yw'n berygl i ddiogelwch staff neu gwsmeriaid a rhoddir gwybod i'r awdurdodau priodol am unrhyw eitemau amheus y ceir hyd iddynt yn yr eiddo**
5. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_  
Swydd \_\_\_\_\_



Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas ag atal ac ymdrin â lladrad yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Bydd pob aelod staff yn gyfrifol am wneud yn siŵr nad yw eiddo staff neu gwsmeriaid yn cael eu lladrata oherwydd eu camau gweithredu nhw**
4. **Os yw cwsmer yn rhoi gwybod i aelod staff am ladrad, dylai ef/hi roi gwybod i'r person â chyfrifoldeb yn syth, yn ogystal â'r staff goruchwyllo drws a'r heddlu os oes angen**
5. **Rhaid cofnodi unrhyw eiddo a ganfyddir ar y Gofrestr Eiddo Coll a rhoi gwybod i'r person â chyfrifoldeb yn syth**
6. **Os ceir hyd i waled, pwrs neu arian arall yn yr eiddo, rhaid ei gofnodi ar y Gofrestr Eiddo Coll (yn ddelfrydol gydag aelod staff arall yn bresennol) a rhoi gwybod i'r person â chyfrifoldeb yn syth**
7. **Dylid storio'r holl eiddo coll mewn man diogel a gytunwyd**
8. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

## Cofrestr Eiddo Coll

Lleoliad.....

Dyddiad	Disgrifiad o'r Eiddo	Dogfen adnabod	Dyddiad Casglu	Llofnod a manylion y casglwr	Dyddiad casglu gan yr heddlu

Llofnod y Rheolwr .....

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas ag atal ac ymdrin ag anhrefn a rheoli gwrthdaro yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Bydd pob aelod staff yn gyfrifol am wneud yn siŵr nad yw anhrefn a gwrthdaro yn digwydd oherwydd eu camau gweithredu nhw**
4. **Os bydd anhrefn, dylai staff roi gwybod i'r person â chyfrifoldeb yn syth, yn ogystal â'r staff goruchwyllo drws a'r heddlu os oes angen**
5. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

# Cofnod Digwyddiad

Lleoliad.....

Dyddiad/Amser	Disgrifiad Byr	Damwain/Digwyddiad/Lladrad Nodwch	Rhif Ffurflen Ddigwyddiadau (os yw'n berthnasol)	Wedi Cysylltu â'r Heddlu? Do/Naddo

Llofnod y Goruchwylydd Drws:	Dyddiad:
Llofnod y Rheolwr:	Dyddiad:

## **RHYBUDD PWYSIG**

Ni chaniateir ymddygiad meddw, treisgar na chwerylgar yn yr eiddo hyn.

Bydd unrhyw un sy'n ymddwyn yn y modd hwn yn gorfod gadael yr eiddo ac fe gysylltir â'r heddlu os oes angen.

## Problemau'r Eiddo

## Llyfr Cofnodi Capasiti

Dyddiad .....

<b>Gwiriadau Dechrau Sesiwn</b>	<b>Wedi'i gwblhau?</b>
1. Diangfeydd tân wedi'u dad-gloi ac yn gwbl glir ar eu hyd	
2. Llofnod y Goruchwylydd Drws	
3. Goruchwylwyr drws yn gwisgo bathodynau cofrestru.	
4. Os yw'r lleoliad ar agor, faint sy'n bresennol.	
5. Unrhyw gyfarwyddiadau arbennig i staff.	
6. Dangos unrhyw staff newydd o amgylch y lleoliad	

Gwiriwyd gan:	Enw mewn print bras:	Llofnod:
Rheolwr:	Enw mewn print bras:	Llofnod:

## Cofnod Lefel Cyfradd Llenwi:

Amser	Nifer	Llythrennau Cyntaf	Cyfanswm i mewn	Nifer a wrthodwyd
19:00				
19:30				
20:00				
20:30				
21:00				
21:15				
21:30				
21:45				
22:00				
22:15				
22:30				
22:45				
23:00				
23:15				
23:30				
23:45				
00:00				

Nifer sy'n bresennol ar ddechrau'r shift:	
Uchafswm niferoedd yn ystod y nos:	
Llofnod y Rheolwr:	

# Cofnod Damwain

Lleoliad.....

Dyddiad/Amser	Disgrifiad Byr	Rhif Ffurflen Ddamweiniau (os yw'n berthnasol)/ RIDDOR	A alwyd ambiwlans? Do/Naddo	Wedi Cysylltu â'r Heddlu? Do/Naddo	Llofnod yr Aelod Staff

Llofnod y Rheolwr:	Dyddiad:
--------------------	----------



## **Diogelwch y Cyhoedd**

Rhowch eich cynllun gwagio adeilad yma

## Rheoli Digwyddiadau

## Rheoli Digwyddiadau

### Rhybudd Pro-fforma

I: Tîm Plismona Cymdogaeth yr Heddlu  
Rheolwr Trwyddedu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Swyddog Trwyddedu yr Heddlu  
Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
(diwygiwch fel sy'n briodol)

Ar [dyddiad] am [amser], cynhelir y digwyddiad canlynol yn yr eiddo hwn [enw'r eiddo]: [manylion y digwyddiad a gynlluniwyd]

Mae'r digwyddiad yn dod dan amodau arferol ein trwydded, ond rhoddir gwybod i chi, ymlaen llaw, am y digwyddiad arbennig hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, mae croeso i chi gysylltu â mi [enw] ar [rhif ffôn].

Diolch yn fawr

# Gwydr

## Polisi casglu gwydrau

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Mae'n rhaid i staff sy'n gwerthu alcohol yn yr eiddo wneud yn siŵr bod gwydrau neu boteli gwag neu wedi'u gadael yn cael eu symud yn syth o'r bar pan fydd y cwsmer yn gadael yr ardal.**
4. **Mae'n rhaid i staff glirio gwydrau, poteli, platiau, cylllyll a ffyrc ayyb oddi ar y byrddau cyn gynted ag sy'n ymarferol pan fydd cwsmeriaid yn gadael y bwrdd, a dim mwy na 5 munud ar ôl i'r bwrdd ddod yn wag.**
5. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

## Tân

**Gellir cael arweiniad yn ymwneud â'r holl faterion tân gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn:**

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Swyddfa Sir Conwy  
Adran Diogelwch Tân  
Llys Conwy  
16-18 Ffordd Bangor  
Conwy  
LL32 8NH**

**Ffôn: 01492 564980  
Ffacs: 01492 564990**

## Cofnod Hyfforddi Staff / Tân

<b>Enw'r Gweithiwr</b>	<b>Swydd</b>
------------------------	--------------

<b>Dyddiad</b>	<b>Hyfforddiant a gafwyd</b>	<b>Llofnod yr Aelod Staff i ddangos eu bod yn deall</b>	<b>Llofnod y Rheolwr</b>

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â chynnal lefelau sŵn derbynol yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Bydd y sefydliad hwn yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod cwsmeriaid sy'n gadael yr eiddo yn gwneud hynny yn dawel ac yn bwyllog**
4. **Bydd y sefydliad yn arddangos posteri e.e. y poster Sshhh ger yr allanfeydd, gan atgoffa cwsmeriaid i fod yn dawel**
5. **Bydd staff yn sicrhau bod drysau a ffenestri yn cael eu cau fel y cytunwyd am ...pm**
6. **Bydd staff yn sicrhau bod cerddoriaeth ond yn cael ei chwarae ar y lefel a osodir gan y rheolwyr**
7. **Bydd lefel y gerddoriaeth yn cael ei gostwng dri deg munud cyn cau a sicrhau bod cerddoriaeth arafach a mwy pwyllog yn cael ei chwarae**
8. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

Enw a chyfeiriad yr eiddo:

---

---

Enw'r deilydd trwydded eiddo:

---

Enw'r goruchwyliwr eiddo dynodedig:

---

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol yn yr eiddo.
2. Y person â chyfrifoldeb yn y polisi yw un o'r canlynol:
  - Deilydd trwydded eiddo
  - Goruchwyliwr eiddo dynodedig
  - Person 18 oed neu hŷn sydd wedi'i awdurdodi i ganiatáu gwerthu neu gyflenwi alcohol gan rywun dan 18 oed
3. **Mae'n rhaid i staff sy'n gwerthu alcohol ar yr eiddo ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolion (sy'n ymddangos iddyn nhw a/neu i'r person â chyfrifoldeb eu bod dan 18 oed) ddangos tystiolaeth derbyniol gyda'u llun, dyddiad geni a marc holograff.**
4. **Mae enghreifftiau o dystiolaeth briodol yn cynnwys**
  - pasbort
  - trwydded yrru gyda llun
  - cerdyn tystiolaeth oedran gyda'r hologram PASS
5. **Bydd y person â chyfrifoldeb a nodwyd uchod yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o fodolaeth a chynnwys y polisi hwn**

Llofnod \_\_\_\_\_

Swydd \_\_\_\_\_

## Mathau derbyniol o dystiolaeth

Yr unig fathau derbyniol o dystiolaeth yw:

1. Pasbort
2. Trwydded yrru gyda llun
3. Cardiau Tystiolaeth Oedran gyda'r hologram PASS

Mae'r Cynllun Safonau Tystiolaeth o Oedran (PASS) yn gynllun tystiolaeth oedran cenedlaethol a gefnogwyd gan y Swyddfa Gartref, ACPO (Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu), SIA (Awdurdod y Diwydiant Diogelwch) a TSI (y Sefydliad Safonau Masnach). Mae derbyn cerdyn hologram PASS gyda delwedd o'r person a dyddiad geni derbyniol yn **ddiwydrwydd dyledus**. Gellir gweld yr holl gynlluniau PASS achrededig ar wefan PASS yn [www.pass-scheme.org.uk](http://www.pass-scheme.org.uk) dan yr Wybodaeth Rhoi Cerdyn. Mae'r 4 cynllun PASS cenedlaethol wedi'u dangos yma, ac mae 15 cynllun rhanbarthol hefyd, ond maent i gyd yn cynnwys yr hologram PASS.



## Peidiwch â Cheisio Dyfalu eu Hoedran!

Tabl defnyddiol i'ch helpu i gyfrifo oedran rhywun o flwyddyn eu geni  
OND os ydych yn amau bod rhywun dan oed ... .. PEIDIWCH Â GWERTHU IDDYNT

### Gofynnwch am dystiolaeth o'u hoedran bob amser

Blwyddyn geni	Oed yn 2017
1993	24
1994	23
1995	22
1996	21
1997	20
1998	19
1999	18
2000	17
2001	16

### Cofiwch:

Os oes gennych drwydded i werthu nwyddau gyda chyfyngiad oedran, mae gennych chi a'ch staff gyfrifoldeb cyfreithiol. Gallech gollu eich trwydded neu eich gwaith os byddwch yn gwerthu yn anghyfreithlon.



Lleoliad.....

Amser/dyddiad	Disgrifiad o'r unigolyn	A ddangoswyd tystiolaeth o oedran?	Sylwadau	Blaenlythrennau Staff

Llofnod y Rheolwr .....

## Cofnod Hyfforddi Staff

<b>Enw'r Gweithiwr</b>	<b>Swydd</b>
------------------------	--------------

<b>Dyddiad</b>	<b>Hyfforddiant a gafwyd</b>	<b>Llofnod yr Aelod Staff i ddangos eu bod yn deall</b>	<b>Llofnod y Rheolwr</b>

## Atal gwerthu i rai Dan Oed

Rhaid i bob aelod staff ddarllen a llofnodi cyn dechrau eu shift

Enw'r Gweithiwr	Swydd
<p>Peidiwch â cheisio dyfalu oedran rhywun. Os ydych chi'n credu bod rhywun yn edrych yn ieuengach na 21 oed, mae'n rhaid i chi ofyn am dystiolaeth o oedran. Yr unig fathau derbynol o dystiolaeth oedran yw: pasbort, trwydded yrru â llun neu gerdyn tystiolaeth oedran PASS achrededig. Gallech <b>chi</b> golli eich gwaith os byddwch yn gwerthu alcohol i rywun sydd dan 18 oed a gall <b>y dafarn hon</b> golli ei thrwydded.</p>	

Dyddiad/Amser y shift		Llofnod yr Aelod Staff i ddangos eu bod yn deall
	Peidiwch â cheisio dyfalu oedran rhywun.	
	Peidiwch â cheisio dyfalu oedran rhywun.	
	Peidiwch â cheisio dyfalu oedran rhywun.	
	Peidiwch â cheisio dyfalu oedran rhywun.	